

# Prosiect Pleidlais

Tasg Arbennig

Y Cyfnod Sylfaen



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

# Prosiect Pleidlais

## Etholiadau/Pobl sy'n gwneud penderfyniadau

Bydd tasg arbennig y tymor yma'n canolbwyntio ar Etholiadau'r Senedd a phobl sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd hynny'n cyd-fynd â'r Prosiect Pleidlais, etholiad paralel i un y Senedd, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer pobl ifanc 11-15 oed.

Mae cyfanswm o bedair gwers, gyda ffocws ar Gaerdydd, y Senedd, Prif Weinidog Cymru ac Aelodau'r Senedd a'r oedolion sy'n gwneud penderfyniadau. Y dasg olaf i'r disgyblion fydd gweithgaredd amser cylch yn edrych ar erthygl 12, yr hawl i gael eu gwranddo a'u cymryd o ddifri. Mae'r dasg yma'n gyfle iddyn nhw sicrhau bod y pennaeth/cyngor yr ysgol yn clywed eu llais.

## Nodau:

Bydd y plant yn adnabod Caerdydd fel Prifddinas Cymru

Bydd y plant yn adnabod llun o'r Senedd

Bydd y plant yn adnabod Mark Drakeford

Bydd y plant yn deall bod yna oedolion sy'n gwneud penderfyniadau i Gymru

Bydd y plant yn adnabod oedolion sy'n gwneud penderfyniadau iddyn nhw

Bydd y plant yn dysgu am Erthygl 12: mae gen i hawl i gael gwrandawriad.

Rydyn ni wedi creu gweithgareddau estyn mewn colofn ychwanegol. Rydwn ni wedi gadael y golofn amser yn wag, er mwyn i chi fedru addasu'r amseru i gyd-fynd ag anghenion eich dysgwyr.





Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

## Gwers Un: Caerdydd (Prifddinas)

Gweithgaredd	Amser	Gweithgaredd Estyn / Adnoddau ychwanegol
<p><b>HOLI</b></p> <p><i>Trafodaeth amser cylch</i></p> <p>"Ble rwyd ti'n byw?"</p> <p>"Ble mae'r ysgol?"</p> <p>"Pwy sy'n gallu enwi lle arall yng Nghymru?"</p> <p><i>Sgaffaldiau: defnyddio delweddau a ddewiswyd ymlaen llaw o ardaloedd cymdogol y bydd disgyblion o bosib wedi ymweld â nhw i gefnogi'r drafodaeth</i></p> <p>Edrychwch gyda'ch gilydd ar y map o Gymru ar y sgrîn. Amlygwch ble mae eich ysgol chi i'r plant.</p>		<p>Lle i fyw - cysylltiadau â hawliau "Erthygl 27: mae gen i hawl i gael tŷ, bwyd a dillad addas" - gallech chi ddangos y cerdyn symbolau i'r disgyblion ar ddechrau'r wers.</p>
<p><b>PRIF ELFEN</b></p> <p>"Mae gan bob gwlad yn y byd brifddinas. Prifddinas Cymru yw Caerdydd."</p> <p>Gofynnwch i'r plant ydyn nhw wedi bod i Gaerdydd o'r blaen. Dangoswch i'r plant ble mae Caerdydd ar y map.</p> <p>Dangoswch luniau o rai Tirnodau yng Nghaerdydd i'r plant:</p> <p>Y Senedd "Adeilad pwysig i bawb yng Nghymru, fe ddewch chi o hyd iddo yn y Bae yng Nghaerdydd"</p> <p>Canolfan y Mileniwm "Gallwch chi wyllo sioeau yma, mae'n agos at y Senedd ym Mae Caerdydd"</p> <p>Amgueddfa Caerdydd</p> <p>Castell Caerdydd</p> <p>Stadiwm y Principality</p> <p>Canolfan Dewi Sant/Siopau</p> <p>Gweithgaredd Chwarae Rôl: Canolfan Dwristiaeth Caerdydd</p> <p>Yn y Dosbarth: Trefnwch sesiwn chwarae rôl ar gyfer y Ganolfan</p>		<p>Estyniad: efallai bydd rhai disgyblion yn gallu adnabod Caerdydd fel prifddinas; efallai byddwch chi am chwarae gêm ddyfalu.</p> <p>Gweithgaredd Estyn: Taflen weithgaredd 1: Caerdydd</p> <p>Gweithgaredd Estyn: Lluniwch boster am Gaerdydd: gofynnwch i'r disgyblion greu poster am Gaerdydd.</p>

<p>Dwristiaeth trwy greu ardal fach yn y dosbarth.</p> <p><b>Geiriau allweddol:</b>  Prifddinas  Cymru  Caerdydd  Lleoedd i ymweld â nhw  Y Senedd  Bae Caerdydd</p>		
<p><b>MYFYRIO</b></p> <p>Dewch â'r disgyblion yn ôl at ei gilydd i drafod beth maen nhw wedi'i ddysgu.  Ble rydyn ni'n byw?  Beth yw prifddinas Cymru?  Beth allech chi weld yng Nghaerdydd?</p>		

## Gwers 2: Y Senedd/ Prif Weinidog Cymru

Cysylltiadau â Hawliau:

Erthygl 3 - Mae rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i fi

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Amseru</b>	<b>Gweithgaredd estyn / Adnoddau ychwanegol</b>
<p><b>HOLI</b></p> <p><i>Trafodaeth amser cylch</i></p> <p>Yn y wers ddiwethaf fe fuon ni'n siarad am Brifddinas Cymru.</p> <p>Pwy sy'n gallu cofio enw'r Brifddinas?</p> <p>Allwch chi enwi un peth gallech chi weld yng Nghaerdydd?</p> <p>Dangoswch lun o'r Senedd.</p> <p>Pwy sy'n cofio'r adeilad yma? Oes unrhyw un yn cofio'r enw?</p> <p>Esboniwch fod y Senedd yn adeilad pwysig yng Nghymru.</p> <p>Mae yna berson sy'n gweithio yn y Senedd, ac sy'n penderfynu ar lawer o bethau sy'n digwydd yng Nghymru. Y person hwnnw yw'r Prif Weinidog.</p> <p>Enw'r Prif Weinidog yw "Mark Drakeford". Dangoswch lun.</p> <p>Gofynnwch i'r plant ydyn nhw wedi gweld Mark Drakeford o'r blaen. Efallai byddan nhw'n ei nabod o'r teledu.</p>		
<b>PRIF ELFEN</b>		Gweithgaredd Estyn: Taflen weithgaredd 2: Y Senedd

<p>Rydyn ni'n mynd i greu adeilad Senedd ein hunain heddi.</p> <p>Yn dibynnu ar beth sydd ar gael gan y plant yn y dosbarth (neu gartre) gallen nhw ddefnyddio papur a phinnau ysgrifennu, cardbord, Lego neu fodelu sothach i greu Senedd.</p> <p>Anogwch y plant i ddisgrifio beth maen nhw'n ei adeiladu ac anogwch nhw i ddisgrifio nodweddion adeilad y Senedd.</p>		
<p><b>MYFYRIO</b></p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion rannu'r Senedd maen nhw wedi'i chreu, siaradwch am y nodweddion rydych chi'n gallu eu gweld yn y Senedd.</p> <p>Atgoffwch y disgyblion fod hwn yn adeilad pwysig yng Nghymru.</p> <p>Dangoswch lun o Mark Drakeford.</p> <p>Gofynnwch i'r plant ydyn nhw'n cofio ei enw?</p> <p>Ydyn nhw'n cofio beth yw ei swydd?</p>		

### Gwers 3: Pleidleisio (gwneud penderfyniadau)

Cysylltiadau â hawliau: Erthygl 12 - mae gen i hawl i gael gwrandawriad ac i gael fy nghymryd o ddifri

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Amseru</b>	<b>Gweithgaredd Estyn / Adnoddau ychwanegol</b>
<p><b>HOLI</b></p> <p>Atgoffwch y disgyblion am eich gwrs ddiwethaf.</p> <p>Yn y wers ddiwethaf fe wnaethon ni greu ein hadeilad pwysig ein hunain.</p> <p>Beth oedd enw'r adeilad pwysig?</p> <p>Ble mae'r Senedd?</p> <p>Pwy sy'n gallu cofio enw'r Prif Weinidog? Mae e'n gwneud llawer o benderfyniadau sy'n effeithio ar bawb yng Nghymru.</p> <p>Cefnogwch atebion y disgyblion â'r wybodaeth gywir.</p> <p>Mark Drakeford yw'r Prif Weinidog.</p> <p>Mae llawer o wahanol bobl yn gweithio gyda Mark Drakeford yn y Senedd. Maen nhw'n gweithio mewn grwpiau sydd ag enwau arbennig.</p>		



<p>Mae'r grwpiau'n gweithio i wneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru yn cael y pethau maen nhw angen.</p> <p>Yr enw ar y bobl sy'n gweithio gyda Mark Drakeford yw Aelodau'r Senedd. Mae pobl yng Nghymru yn pleidleisio drostyn nhw, iddyn nhw gael eu swyddi.</p> <p>Pleidlais yw pan fydd pobl yn dewis rhywbeth neu rywun maen nhw'n ei hoffi.</p> <p><b>Heddiw rydyn ni'n mynd i gynnal pleidlais.</b></p>		<p>Efallai bydd disgyblion yn eich dosbarth wedi gwyllo sioeau pleidleisio poblogaidd fel <i>Strictly Come Dancing</i> neu <i>Britain's Got talent</i> felly gallech chi gyfeirio at rheiny hefyd.</p>
<p><b>PRIF ELFEN:</b></p> <p>Rhowch 3 opsiwn i'r plant o weithgaredd grŵp maen nhw'n mwynhau ei wneud.</p> <p>Rhowch nhw ar y bwrdd ac esbonio y byddwch chi'n cynnal pleidlais yn y dosbarth i benderfynu pa weithgaredd byddwch chi i gyd yn ei wneud.</p> <p>Ewch ati i bleidleisio trwy ofyn i'r disgyblion godi llaw (dim ond un maen nhw'n gallu dewis)</p> <p>Neu</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion sefyll nesaf at y gweithgaredd bydden nhw'n hoffi ei wneud (neu lun o'r gweithgaredd).</p> <p>Esboniwch mai dim ond un gweithgaredd fydd yn ennill.</p> <p>Gwnewch y gweithgaredd gyda'ch gilydd.</p>		

<p><b>MYFYRIO</b></p> <p>Ar ôl y gweithgaredd, dewch â'r disgyblion yn ôl at ei gilydd.</p> <p>Beth yw pleidlais?</p> <p>Sut deimlad oedd e pan gafodd eich gweithgaredd chi ei ddewis?</p> <p>Sut deimlad oedd e pan wnaeth eich gweithgaredd chi ddim cael ei ddewis?</p> <p>Pwy yw hwn (dangoswch lun o Mark Drakeford)?</p> <p>Ble mae e'n gweithio?</p>		
--	--	--

**Gwers 4: Pobl sy'n gwneud penderfyniadau i fi**

Cysylltiad â hawliau: Erthygl 3 - mae rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i fi, ac Erthygl 19 - mae gen i hawl i fod yn ddiogel.

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Amseru</b>	<b>Gweithgaredd Estyn/Adnoddau ychwanegol</b>
<p><b>HOLI</b></p> <p>Soniwch am y pethau ddysgwyd yn y wers ddiwethaf.</p> <p>Fe wnaethon ni gynnal pleidlais yn y wers ddiwethaf, pwy sy'n cofio pa weithgaredd enillodd y pleidlais?</p> <p>Fe siaradon ni am Mark Drakeford (dangoswch y llun) ac Aelodau eraill y Senedd.</p>		

<p>Fe ddysgon ni eu bod nhw'n gwneud penderfyniadau i bawb yng Nghymru.</p> <p>Heddiw rydyn ni'n mynd i feddwl am oedolion sy'n helpu i wneud penderfyniadau i chi.</p> <p>Mae llawer o wahanol oedolion yn gofalu amdanoch chi, ac yn helpu i wneud penderfyniadau am beth rydych chi'n gwneud.</p> <p>Pwy sy'n helpu i ofalu amdanoch chi? (Efallai byddwch chi am gefnogi syniadau cychwynnol y plant â lluniau o oedolion eraill yn eich cymuned).</p> <p>Weithiau mae rhaid i oedolion wneud penderfyniadau am beth fydd orau i chi.</p> <p>Pwy sy'n gwneud penderfyniadau gartre?</p> <p>Pwy sy'n gwneud penderfyniadau yn yr ysgol?</p> <p>Ysgrifennwch atebion y plant ar y bwrdd.</p>		
<p><b>PRIF ELFEN:</b></p> <p>Yn yr Ysgol, rydyn ni wedi dweud bod XXX yn gwneud penderfyniadau.</p> <p>Heddiw rydyn ni'n mynd i feddwl pa benderfyniadau bydden ni'n gwneud petaen ni'n fos ar yr ysgol. Rydyn ni'n mynd i rannu ein syniadau gyda XXXX.</p>		<p>Anfonwch restrau syniadau'r disgyblion at y person perthnasol yn eich ysgol, a gofynnwch i'r person yna ymateb i syniadau'r disgyblion, gan roi adborth iddyn nhw ar unrhyw syniadau allai gael eu rhoi ar waith, neu resymau pam mae rhai pethau'n methu digwydd.</p>

Chwaraewch "Tasen i'n fos ar yr ysgol", sydd ar dudalen 20 o'n <a href="#">Pecyn Offer Blociau Adeiladu</a> .		
<b>MYFYRIO:</b>  Esboniwch y byddwch chi'n anfon eu rhestr o syniadau at y person perthnasol yn yr ysgol.  Crynhowch y dysgu o'r gwersi diweddaraf.		